HUW, ROLANT (1714 - 1802), bardd

Enw: Rolant Huw
Dyddiad geni: 1714
Dyddiad marw: 1802
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

a breswyliai yn y Graeenyn (Graienyn, Greienyn) ym mhlwyf Llangywer, Sir Feirionnydd, ac a oedd hefyd yn stiward i berchnogion cyfagos y Fachddeiliog a Rhiwedog. Y mae'n bwysig fel dolen yn nhraddodiad barddol Penllyn; bu'n athro i feirdd, yn enwedig i Robert William o'r Pandy, Tre Rhiwedog (1744 - 1815). Argraffwyd peth o'i waith yn *Beirdd y Bala* (cywirer ' Robert Saunderson ' yn y byr-nodyn i ' William Saunderson '), ac yn *Cymru (O.M.E.)*, i, 108-10, 197-8; ac erys rhagor mewn llawysgrifau yn N.L.W. Claddwyd yn Llangywer, 16 Rhagfyr 1802, yn 88 oed.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

NLW MSS 9, 325, 672, 4967, 4971

Llawysgrifau Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 110, 225, 229

Llawysgrifau Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yng ngofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Bala College), MS. 772 (yn Ll.G.C.)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734374

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu